Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Hollies
# Y Feithrinfa Gofal Dydd Hollies
# 9 Sanatorium Road
# Treganna
# Caerdydd
# CF11 8DG

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016

## gan

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Hollies yn lleoliad cyfrwng Cymraeg, sydd wedi ei leoli yn Nhreganna, yn awdurdod lleol Caerdydd. Agorwyd y lleoliad chwe mis yn ôl yn Ionawr 2016. Roedd hyn oherwydd y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y rhiant-gwmni, Y Feithrinfa Gofal Dydd Hollies. Mae'n agor am bum diwrnod yr wythnos ac mae dwy ymarferwr gan y lleoliad, un ohonynt yw'r arweinydd sydd yn newydd iawn i'w swydd.

Mae cofrestriad y lleoliad yn ei alluogi i gymryd hyd at 16 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant tair a phedair blwydd oed, pob un ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob plentyn o darddiad gwyn Prydeinig. Mae tua hanner y plant yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd yn ddiweddar iawn ym mis Mehefin 2016. Arolygodd Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) y lleoliad ddiwethaf ym mis Awst 2015. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Sefydlodd y perchennog y lleoliad yn ddiweddar ac mae'r arweinydd yn newydd i'w rôl. Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol:

Mae'r cryfderau'n cynnwys:

- Defnydd effeithiol y plant o fedrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Modelu effeithiol yr ymarferwyr o'r iaith Gymraeg
- Perthnasau cadarnhaol rhwng oedolion a phlant
- Gofal diwyd a ddarperir gan yr ymarferwyr
- Y gymuned gynhwysol, lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i holl feysydd dysgu ac offer

Mae'r meysydd i'w gwella'n cynnwys:

- Datblygu cynllunio effeithiol i dargedu anghenion pob plentyn yn bwrpasol
- Gwella'r addysgu i herio plant o bob gallu
- Gwella'r gweithdrefnau asesu er mwyn symud plant ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu

### Rhagolygon gwella

Nid yw'r perchennog a'r arweinydd wedi cael amser i sefydlu arferion rheolaidd ac effeithiol. Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r perchennog yn gadarnhaol iawn ac yn awyddus i sefydlu lleoliad cyfrwng Cymraeg o fewn y feithrinfa gofal dydd
- Mae rôl yr arweinydd yn newydd ac nid wedi sefydlu'n llawn
- Nid yw'r lleoliad wedi cael digon o amser i osod cyfeiriad strategol clir i'w waith
- Mae'r lleoliad yn dechrau hunanarfarnu'n briodol ac yn targedu anghenion cyfredol y lleoliad yn fwy effeithiol
- Mae datblygiadau diweddar yn dechrau dangos gwelliannau yn y ddarpariaeth
- Mae'r holl ymarferwyr yn frwdfrydig ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol ac ymarferol i ddatblygu eu medrau a'u rolau yn y lleoliad
- Mae partneriaethau buddiol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol, yn cefnogi'r lleoliad yn dda

## Argymhellion

A1 Gwella’r cynllunio o dasgau ffocws i herio plant unigol yn ôl eu galluoedd

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn amseru cyflwyniadau i weithgareddau’n effeithiol er mwyn cynnal diddordebau’r plant

A3 Sicrhau bod asesiadau dyddiol yn targedu'r camau nesaf yn dysgu plant unigol

A4 Sefydlu arferion arweinyddiaeth cadarn o fewn y lleoliad

A5 Mireinio’r broses hunanarfarnu er mwyn dangos sut mae'r lleoliad yn nodi targedau datblygu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn y lleoliad, o ystyried eu mannau cychwyn, sydd yn aml yn uwch na'r norm ar gyfer plant o'u hoedran. Maent yn gwneud cynnydd cyson yn yr hyn y gallant ei wneud o ddydd i ddydd, ac yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau trwy chwarae rôl yn effeithiol. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gydag oedolion a gyda'i gilydd yn rheolaidd yn ystod gweithgareddau amrywiol yn yr holl feysydd dysgu. Maent yn egluro'n synhwyrol y gwahaniaeth rhwng teimlo 'cyffro' a 'phryder' wrth drafod stori a'i chymeriadau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn glir ac yn sicrhau bod eraill yn eu deall mewn tasgau, fodd bynnag mae lleiafrif yn troi i'r Saesneg er eu bod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan oedolion a chyfoedion ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae llawer o blant yn defnyddio iaith briodol mewn chwarae digymell a strwythuredig, fel trafod maint eliffantod yn yr ardal byd bach a gweithio gyda'i gilydd i adeiladu traciau i gario offer ar drenau. Mae bron pob un plentyn yn deall beth i'w wneud pan gyfeiriwyd gan ymarferwyr yn y Gymraeg. Mae ychydig o blant yn defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth oedolyn a heb gyfeiriadau rheolaidd mai Cymraeg yw iaith y lleoliad.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a phlant eraill. Mae llawer ohonynt yn dewis i drin y llyfrau fel darllenwyr naturiol. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn astud. Maent yn ymateb yn dda i gynnwys y stori a thrafod anturiaethau mamgu mewn marchnad yn synhwyrol, gan gyfrif gwrthrychau a chysylltu ei phrofiadau hi i'w bywydau eu hunain.

Mae llawer o blant yn arbrofi’n effeithiol wrth wneud marciau. Maent yn mwynhau'r profiadau ysgrifennu trwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel beiros, creonau a sialc. Mae llawer o blant yn deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu trwy gydnabod enwau eu hunain a’i gilydd. Maent yn rhannu syniadau am yr hyn y maent yn ceisio nodi ar bapur neu ar y bwrdd sialc yn yr ardal tu allan. Mae llawer o blant yn gwneud marciau’n annibynnol wrth drin pensiliau a lliwio gyda chreonau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis a defnyddio syniadau, offer mathemategol a deunyddiau i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif, adnabod ac enwi rhifau i bump yn hyderus ac ychydig yn cyfrif i 20 a thu hwnt. Er enghraifft, mae llawer yn cyfrif y grisiau ar yr offer dringo’n gywir wrth iddynt esgyn i dwred y ffrâm. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif hetiau gweithwyr adeiladu’n annibynnol wrth iddynt chwarae rôl ar y safle adeiladu a gwerthu cyfarpar

mewn iard adeiladu. Maent hefyd yn penderfynu’n llwyddiannus pa un ohonynt sy’n 'araf' neu’n 'gyflym' wrth iddynt lithro’n frochus i lawr y llithren yn yr ardal allanol.

Mae bron pob plentyn yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol wrth chwarae gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn disgrifio anifeiliaid a gwrthrychau fel 'bach' a 'mawr' wrth drafod eliffantod Thai a nodi'r gwahaniaeth rhwng 'llawn' a 'gwag' wrth lenwi bwcedi tywod yn yr ardal chwarae rôl allanol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio rhifau yn ymarferol ac yn llwyddiannus wrth drafod 'llai na' a 'mwy na' wrth gymharu siapiau dau a thri-dimensiwn. Mae bron pob plentyn yn grwpio gwahanol fathau o wrthrychau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir. Maent yn trafod gwahanol siapiau yn synhwyrol wrth chwarae gyda thoes a dilynu’n gywir wrth drefnu gwahanol ffrwythau ar sgiwerau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gerddoriaeth gyda mwynhad ac ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd. Maent yn defnyddio technoleg wrth iddynt chwarae rôl yn hyderus yn y gegin ac mewn gweithgareddau bob dydd fel defnyddio tiliau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi datblygu medrau meddwl da ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda phobl eraill yn ddeallus wrth ddefnyddio potiau a sosbenni yn y gegin fwd.

Mae llawer o blant yn defnyddio offer cyfrifiadurol a TGCh, fel camera yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio'r cyfrifiadur yn fedrus i reoli rhaglenni gwahanol sy'n herio’u medrau rhifedd a llythrennedd.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob plentyn, yn unol â'u hoedran, dealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Maent yn wybodus am wahanol fwydydd, gan wybod bod diet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau. Mae llawer o blant yn esbonio’n ddeallus bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini a bod gweithgareddau corfforol yn gwneud i'ch calon guro'n gyflymach. Mae bron pob plentyn yn golchi eu dwylo'n drylwyr cyn bwyta’u byrbrydau ac yfed. Maent yn gwneud hyn heb lawer o anogaeth. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau da o hunan hyder, er enghraifft, wrth baratoi ar gyfer byrbrydau ac wrth wisgo eu hunain ar gyfer chwarae tu allan.

Mae bron pob plentyn yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Mae llawer o blant yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais ac yn ymateb gyda pharch at oedolion a'i gilydd. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau amrywiol yn y meysydd dysgu, fel creu cawl Thai a rhannu offer yn ardal y gegin a'r caffi. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithredu ac yn gweithio’n synhwyrol gyda chyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau a dysgu newydd. Maent yn ymwybodol o anghenion pobl eraill ac yn dangos parch atynt wrth rannu mewn tasgau gan ddefnyddio sialc, toes a glud i wneud baneri allan o bapur gwahanol liw a gliter. Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a'u bod yn cael y dewis i fynegi barn, er enghraifft wrth benderfynu aros ar dasg o'u dewis neu i symud ymlaen at dasg arall y tu mewn i'r adeilad neu yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o gymhelliant ac ymgysylltiad. Mae llawer o blant yn parhau i ganolbwyntio ar dasgau am gyfnodau estynedig. Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac maent yn awyddus i drafod eu hoff weithgareddau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn darparu cwricwlwm priodol. Mae'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn dda, fodd bynnag, mae'r broses gynllunio'n newydd ac nid yw'r lleoliad wedi sefydlu'r cynllunio o brofiadau dysgu yn effeithiol eto. Mae'r profiadau dysgu ar hyn o bryd yn targedu anghenion a diddordebau'r plant yn addas.

Mae'r arweinydd a benodwyd yn ddiweddar ac ymarferwyr eraill yn trafod themâu a gweithgareddau mewn cyfarfodydd wythnosol ac maent yn cynllunio gweithgareddau'r thema gyda'i gilydd. Mae pob ymarferwr yn cyfrannu eu syniadau i wella'r gweithgareddau ymhellach, sy'n creu system gynllunio gytûn a chydweithredol. Mae ymarferwyr yn dechrau gweithio ynghyd yn effeithiol i ddarparu gweithgareddau diddorol y tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae'r cofnodion dyddiol o gynnydd a gedwir gan ymarferwyr yn foddhaol ac maent yn dylanwadu ar dasgau'r dyfodol yn briodol i herio llawer o blant.

Mae'r profiadau dysgu, sy'n cynnwys heriau gydag ieir yn y cwt allanol, tasgau cegin fwd a gweithgareddau creadigol gyda phowdr cyri mewn toes, cawl Thai a chebabs ffrwythau, yn darparu parhad a dilyniant priodol yn dysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn herio llawer o blant ym mhob maes dysgu.

Mae bron yr holl weithgareddau yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant. Maent yn cysylltu'n addas â strategaethau asesu'r lleoliad i dargedu'r camau nesaf yn dysgu'r plant yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cyflwyno amcanion dysgu'n glir ar ddechrau'r tasgau ffocws ac mae ychydig o blant yn ansicr ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt eu gwneud i gwblhau rhai tasgau. Mae'r cynllunio o dasgau ffocws, i herio plant unigol yn ôl eu gallu, yn newydd ac o ganlyniad, nid yw'r lleoliad wedi sefydlu'r broses hon yn llawn. Mae'n broses sy'n datblygu ar hyn o bryd, a nodwyd fel maes ar gyfer gwella yng nghynllun datblygu'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n gymwys ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn wedi ei gyd-drefnu'n synhwyrol fel bod cydlyniad addas i brofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm. Mae'r deunyddiau a'r dulliau cyflwyno wedi eu haddasu'n dda i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn.

Mae'r cynllunio o wneud marciau a thasgau rhif ar draws yr holl feysydd dysgu yn ddigonol. Mae cyfleoedd i ddatblygu ysgrifennu cynnar a'r defnydd o rifau mewn gweithgareddau chwarae rôl, fel siop y gwaith adeiladu a'r ardal gegin a chaffi yn foddhaol. Maent yn dasgau ymarferol, sy'n annog plant i ffurfio llythrennau a rhifau,

gyda chymorth, mewn ffurfiau adnabyddus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn dda, sydd o fudd i ddatblygu medrau TGCh y plant.

Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant yn effeithlon. Maent yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant gymryd risgiau ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol yn ystod tasgau.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd addas o ymweliadau ac ymwelwyr i gynorthwyo profiadau dysgu'r plant yn foddhaol. Er enghraifft, ymweliadau â'r parc lleol ac ymwelwyr, sy'n cynnwys y gwasanaeth tân, diddanwyr a chymeriadau Cymreig o lyfrau plant yn dysgu plant yn briodol am eu cymuned leol a beth mae pobl yn gwneud yn eu hardal leol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali, Ramadan ac Eid. Mae'r profiadau a gynllunnir yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd i blant.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu'r iaith yn effeithiol. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag y bo modd yn eu dysgu ac mae'r ddarpariaeth hon yn effeithio ar safonau'r plant o'r Gymraeg yn dda. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru'n llwyddiannus, sy'n cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r holl ymarferwyr â'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus am ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau priodol, fodd bynnag nid ydynt yn cyflwyno tasgau ffocws yn effeithiol i herio plant yn ôl eu gallu. Ar adegau, nid yw ymarferwyr yn amseru cyflwyniadau i weithgareddau yn effeithlon er mwyn cynnal diddordebau'r plant.

Mae'r holl ymarferwyr yn bositif wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn. Mae ymyrraeth oedolion mewn tasgau parhaus a chyfoethogi yn briodol, sy'n annog llawer o blant i berfformio ar eu gorau. Mae'r arweinydd, sydd yn newydd iawn i'w rôl, yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a ddewiswyd gan blentyn a gweithgareddau dan arweiniad ymarferwr. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau ffocws yn herio'r plant mwy galluog digon.

Mae'r holl ymarferwyr yn weithgar ac yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad ymarferol. Mae'r system o rannu dyletswyddau'n newydd, ond mae eisoes yn effeithlon. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hwn yn herio pob plentyn i berfformio ar eu gorau bob amser.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol. Maent yn fodelau iaith da eu hunain yn y Gymraeg ac yn darparu amgylchedd lliwgar y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad plant yn llwyddiannus yn yr holl weithgareddau. Maent yn defnyddio ystod addas o gwestiynu i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu plant. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau iaith Gymraeg y plant yn dda.

Mae’r prosesau asesu’n newydd i'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda phlant yr hyn sydd angen iddynt wneud i wella’u gwaith. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau’n ddiwyd i fesur cynnydd plant yn eu dyddiaduron personol ac yng nghofnod cynnydd pob plentyn. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau dyddiol a thargedau plant yn effeithiol yn ystod tasgau i wella deilliannau plant unigol. Felly, nid yw’r ymarferwyr yn targedu’r camau nesaf yn dysgu’r plant yn drylwyr.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn briodol am gyflawniadau eu plant. Mae gwybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg drwy bolisi drws agored y lleoliad, sy'n annog trafodaethau cadarnhaol am gynnydd y plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae cyfleoedd gwerth chweil yn bodoli ar gyfer plant i fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch yn ddyddiol. Mae'r lleoliad yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu’n bwrpasol.

Mae'r holl ymarferwyr yn caniatáu i blant i gymryd eu tro’n gwrtais wrth fwyta byrbrydau ac yfed llaeth neu ddŵr o amgylch y bwrdd byrbryd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant i ailgylchu papur, cardfwrdd a phlastig. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas ac mae’r gymhareb o oedolion i blant yn ffafriol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr yn dda wrth oruchwylio gweithgareddau.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn dda pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd a nodi mannau cychwyn y plant yn y lleoliad yn drylwyr. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant yn dda gyda chymorth ychwanegol os oes angen. Mae'r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol pan fydd yr angen yn codi. Un o'r ymarferwyr arweiniol yw’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy ei weithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiadwyd gan yr ymarferwyr. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o'r byd, fel Diwali, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Eid a Ramadan a gyda doliau o wahanol ddiwylliannau.

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu ac offer. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i weithgareddau a thasgau tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn bwrpasol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Anogir y plant i symud yn rhydd o amgylch y meysydd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae adnoddau amrywiol yn bodoli, gan gynnwys fframiau dringo gyda sleidiau, siediau sy'n hyrwyddo gwahanol weithgareddau ac ardaloedd ieir i gyfrif wyau. Mae'r rhain yn hygyrch i blant, sy'n annog eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus.

Mae gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu'n rhannu adnoddau'n fuddiol. Mae'r ymarferwyr yn caniatáu i'r holl blant i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd yn eu tro, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae ardal awyr agored ysgogol yn bodoli, sy'n cynnwys ardaloedd tyfu, plannu, chwarae rôl a dringo. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau'r lleoliad yn dda i hyrwyddo datblygiad corfforol y plant. Mae'r adeilad o ansawdd da, yn ddiogel iawn ac mewn cyflwr da.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd a benodwyd yn ddiweddar, ymarferwyr arweiniol a pherchennog y rhiant-gwmni, y Feithrinfa Gofal Dydd Hollies, wedi dechrau defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad newydd yn effeithlon. Mae hyn yn cychwyn ar welliannau yn ansawdd y ddarpariaeth a'r arferion arwain. Fodd bynnag, o ganlyniad i greadigaeth ddiweddar y lleoliad, newidiadau yn yr ymarferwyr a phenodiadau newydd, mae cyfeiriad strategol cyfredol y lleoliad yn foddhaol. Nid yw'r newidiadau wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar ddatblygu darpariaeth mewn meysydd allweddol sydd angen gwelliannau.

Mae'r arweinydd, ochr yn ochr ag arweiniad gan ymarferwyr arweiniol a'r perchennog, wedi dechrau i hyrwyddo gwelliannau. Nid yw hi wedi cael digon o amser i reoli a chanolbwyntio'n bwrpasol ar wella addysgu a dysgu. Mae'r perchennog yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd fel tîm. Mae system arfarnu ac arsylwi staff y rhiant-gwmni yn gwerthuso rolau ymarferwyr yn drylwyr ac yn targedu eu datblygiad proffesiynol yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol,

fel yr awdurdod lleol yn ddeallus. Mae'r perchennog yn cymell pobl eraill tuag at welliannau mewn modd cadarnhaol a chefnogol.

Er bod y broses o gynllunio datblygiadol yn newydd iawn i'r lleoliad, mae gan y perchennog, ymarferwyr arweiniol ac arweinydd y lleoliad gwell ffocws erbyn hyn ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu priodol yn ddogfen weithredol. Mae cefnogaeth y perchennog yn sicrhau bod cyllid ac adnoddau ar gael i gwrdd â'r amcanion gwella. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn adnabod pob blaenoriaeth yn glir trwy broses hunanarfarnu'r lleoliad. Mae'r prosesau gwella hyn yn dechrau sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â'r amcanion datblygu. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynllunio profiadau dysgu ymhellach, hybu strategaethau ymddygiad cadarnhaol a datblygu medrau iaith Gymraeg y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cael mynediad i hyfforddiant perthnasol a phriodol gan yr awdurdod lleol, sy'n effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth yn gadarnhaol. Mae arweiniad y perchennog a'r athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol wedi cefnogi'r arweinydd newydd yn synhwyrol yn ystod cyfnod o newidiadau sylweddol. Mae'r polisïau yn weithredol ac mae'r lleoliad yn bodloni ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda, fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r system newydd o adnabod man cychwyn pob plentyn yn y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu'n newydd i'r arweinydd. Mae'r perchennog a'r ymarferwyr arweiniol wedi cefnogi'r arweinydd gyda'r broses. Mae cefnogaeth yr awdurdod lleol yn dechrau effeithio ar y broses yn fuddiol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinydd wedi cael digon o amser i ddangos yr effaith o wella'r ddarpariaeth ac ymarferion arweinyddiaeth trwy fabwysiadu strategaethau newydd a chyngor gwerthfawr eraill. Mae'r broses yn foddhaol ar hyn o bryd.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn fwy gwybodus am waith cyfredol y lleoliad erbyn hyn. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr arweiniol yn datblygu mwy o gysondeb i weithdrefnau monitro safonau plant a darpariaeth y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol o ddydd i ddydd, sy'n hyrwyddo gwell dealltwriaeth o anghenion y lleoliad. Mae'r hunanarfarniad yn rhoi ystyriaeth bwrpasol o farn rhieni a gofalwyr a'r awdurdod lleol. Mae hyn yn fanteisiol i ddatblygiad y lleoliad. Mae'r perchennog yn defnyddio cyllid yn effeithiol ar gyfer adnoddau a staffio effeithlon.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae cysylltiadau addas rhwng hunanarfarnu'r lleoliad a thargedau'r cynllun datblygu, sy'n canolbwyntio ar welliannau yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn arwain gyda digon o fanylder i sut a pham y mae angen datblygu rhai ardaloedd ymhellach drwy dargedau penodol. Yn gyffredinol, nid yw'r targedau yn y cynllun datblygu yn deillio o'r anghenion datblygu a nodwyd yn hunanarfarnu'r lleoliad.

Mae'r arweinyddiaeth yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, maent yn defnyddio systemau cynllunio ac asesu'r awdurdod lleol yn fwy effeithiol. Mae hyn yn dechrau effeithio ar ansawdd y profiadau dysgu'n fuddiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid i wella darpariaeth a deilliannau plant. Cafodd y lleoliad ei sefydlu'n ddiweddar ac mae'n arbennig o fuddiol bod y feithrinfa gofal dydd sefydledig yn cefnogi'r lleoliad. Mae partneriaeth y lleoliad gyda'r awdurdod lleol yn ddefnyddiol. Mae'r berthynas gadarnhaol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn herio'r perchennog, yr arweinydd a'r ymarferwyr i wella gwaith y lleoliad yn synhwyrol.

Mae partneriaethau'r lleoliad gydag ysgolion lleol yn dda. Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant, sy'n cynnwys defnydd addas o'r parc cyfagos ac ystod o ymwelwyr â'r lleoliad. Mae'r rhain yn darparu profiadau dysgu ar gyfer y plant sy'n cefnogi tasgau dyddiol a gweithgareddau themâu tymhorol.

Mae asiantaethau allanol yn cefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr yn dda, er enghraifft hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, mentrau Cyfnod Sylfaen a diweddariadau diogelu. Mae llawer o'r hyfforddiant hwn yn cael ei gydlynu gan y feithrinfa gofal dydd ac yn mwyhau gwaith dyddiol yr holl ymarferwyr yn effeithiol. Mae hyn yn gwella ymwybyddiaeth yr ymarferwyr o faterion pwysig a pherthnasol wrth ymdrin yn bwrpasol ag anghenion plant ifanc.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad drwy ddefnyddio cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r lleoliad yn annog rhieni a gofalwyr i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad. Mae'r adborth hwn yn helpu i wella'r ddarpariaeth. Mae'r lleoliad yn gweithredu ar safbwyntiau pobl eraill yn synhwyrol er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Agorodd y perchennog y lleoliad tua chwe mis yn ôl oherwydd y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y feithrinfa gofal dydd sefydledig. Mae'r arweinydd yn newydd iawn i'w rôl. Mae'n gweithio ochr yn ochr gydag ymarferwyr arweiniol, ond nid ydynt wedi cael digon o amser i sicrhau gwelliannau yn y lleoliad. Fodd bynnag, mae safonau a lles plant yn dda. Mae hyn yn bennaf oherwydd mannau cychwyn da neu well y plant wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr yn dda ac maent yn gweithio'n ddiwyd ochr yn ochr â'i gilydd i wella cyflawniadau'r plant. Mae cefnogaeth y perchennog, y feithrinfa gofal dydd sefydledig ac asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol, yn sicrhau ffocws ar ddatblygu ansawdd arweinyddiaeth ymhellach yn y lleoliad. Fodd bynnag, mae sicrhau gwelliannau yn y lleoliad, drwy flaenoriaethau'r cynllunio strategol, ar gam cynnar yn eu datblygiad. Nid yw'r lleoliad wedi ymgorffori'r arferion hyn eto.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei adnoddau'n dda i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau. Mae ganddo adnoddau effeithiol y tu mewn a thu allan. Mae'r lleoliad yn eu defnyddio'n synhwyrol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r

adnoddau o fewn cyrraedd i'r plant ac mae hyn yn annog annibyniaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae gan y perchennog ddealltwriaeth gadarn o'r gyllideb ac yn ei reoli'n dda. Mae'r defnydd o'r gyllideb yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'r targedau ar gyfer gwelliant yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn newydd ac wedi sefydlu'n ddiweddar. Nid yw'r ymarferwyr newydd a'r systemau a grëwyd yn ddiweddar wedi cael digon o amser i effeithio ar arferion arweinyddiaeth, y ddarpariaeth o brofiadau dysgu, a chysondeb y trefniadau addysgu ac asesu. Felly, er bod deilliannau'r plant yn dda, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 13 | 7<br>54% | 6<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 13 | 8<br>62% | 5<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 13 | 9<br>69% | 4<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 6<br>50% | 6<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 12 | 5<br>42% | 7<br>58% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 9 | 4<br>44% | 5<br>56% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 6<br>50% | 6<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 7 | 4<br>57% | 2<br>29% | 1<br>14% | 0<br>0% | 6 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 13 | 8<br>62% | 5<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 4 | 3<br>75% | 1<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child’s progress. | 11 | 4<br>36% | 3<br>27% | 3<br>27% | 1<br>9% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 13 | 5<br>38% | 7<br>54% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 9 | 3<br>33% | 5<br>56% | 1<br>11% | 0<br>0% | 4 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 11 | 4<br>36% | 7<br>64% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 3<br>30% | 2<br>20% | 5<br>50% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 31% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 13 | 6<br>46% | 7<br>54% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |